



Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw



# Adroddiad Blynyddol

2021

Addysg - Gofal - Cymreictod - Cymuned - Cefnogaeth - Cyfeillgarwch

https://www.yggwyr.org.uk

## CANLLAWIAU STADUDOL DIWYGIEDIG I DDEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mewn perthynas â'r cyfarfodydd Adrodd i Rieni Blynyddol. Mae'r trefniadau newydd yn golygu nid oes gofyniad bellach ar gyrff llywodraethu ysgolion i gynnal cyfarfod blynyddol i rieni. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai rhieni fod â'r gallu i drafod materion sydd o bwys iddynt a chyrff llywodraethu.

1. Mae'n ofynnol o hyd i gyrff llywodraethu gynhyrchu a dosbarthu adroddiad blynyddol i'r rhieni.
2. Os bydd 10% o rieni disgyblion cofrestredig yr ysgol neu rieni 30 o'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol - pa un bynnag o'r ffigurau sydd isaf - yn gofyn am gyfarfod â'r llywodraethwyr, mae'n ofynnol i gorff llywodraethu'r ysgol gynnal cyfarfod.
3. Gall fod yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gynnal hyd at 3 cyfarfod i rieni bob blwyddyn academaidd.

Er gwybodaeth, nid oedd unrhyw fater wedi ei godi gan y rhieni i'w drafod mewn cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr yn 2019/20. Yn ogystal, yn sgîl effaith Covid19 gwnaed cais gan y Llywodraeth i Gyrff Llywodraethol ysgolion i gynhyrchu adroddiad ar sail 'ymdrechion rhesymol'.

## CYFANSODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHOL 2021/22

Y mae'r cyfansoddiad yn unol â'r Erthyglau Llywodraethu perthnasol yn seiliedig ar 1130 disgybl o Fedi
2021: 6 rhiant lywodraethwr, 5 llywodraethwr AALl, 2 athro lywodraethwr, 1 staff lywodraethwr, 5 llywodraethwr cyfetholedig a'r Pennaeth = cyfanswm 20 Llywodraethwr. Dylid nodi fod lle gwag yr AALl dan sylw am benodiad ar hyn o bryd, mai Jeffrey Connick yw'r Pennaeth Gweithredol (Ionawr 2022 tan Awst 2022) yn sgil ymddeoliad Dafydd Jenkins o rôl y Pennaeth a hefyd dylid nodi mai Ben Roberts sydd bellach yn gweithredu fel Clerc yn barhaol o Chwefror 2022. Ysgol Grŵp 7 yw Ysgol Gyfun Gŵyr.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Miss Aldyth Williams (Cadeirydd) | A.A.Ll | tan Gorff. | 2025 |
| Mr Dafydd Jenkins | Pennaeth | tan Rhag. | 2021 |
| Mr Ben Roberts | Clerc | tan Medi. | 2022 |
| Dr Adrian Morgan (Is-gadeirydd) | A.A.Ll. | tan Rhag. | 2022 |
| Lle gwag – dan benodiad | A.A.Ll. | tan Gorff. | 2021 |
| Parch. Ddr. Ian Morris | A.A.Ll. | tan Gorff. | 2025 |
| Dr Robert Smith | A.A.Ll. | tan Awst | 2024 |
| Mrs Catrin Evans | Rhiant | tan Tach. | 2022 |
| Mr David Anderson Thomas | Rhiant | tan Tach. | 2022 |
| Mrs Saran Thomas | Rhiant | tan Tach. | 2024 |
| Mrs Karen Thomas | Rhiant | tan Tach. | 2024 |
| Mr Peter Morgan | Rhiant | tan Tach. | 2024 |
| Mrs M Hutchings | Rhiant | tan Tach. | 2022 |
| Mr Steve Williams | Cyf-ethol | tan Tach. | 2025 |
| Mrs Rahel Williams | Cyf-ethol | tan Tach. | 2022 |
| Dr Richard Morgan | Cyf-ethol | tan Tach. | 2025 |
| Mr Steve Morris | Cyf-ethol | tan Medi. | 2023 |
| Yr Athro Ceri Davies | Cyf-ethol | tan Medi. | 2024 |
| Mr Rhodri Evans | Athrawon | tan Medi. | 2024 |
| Mrs Jan Ohlsson Jones | Athrawon | tan Medi. | 2022 |
| Ms C Mari Jones | Staff | tan Medi. | 2024 |
| Uwch ddisgyblion | Cyngor Ysgol | tan Awst. | 2022 |

## GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Rwy'n falch i gael cyfle arall i'ch cyfarch fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Gŵyr. Ar ôl blwyddyn heriol arall, dangososdd yr ysgol eithriadol hon ei gallu unwaith yn rhagor i ymdopi'n ardderchog â chysgod *Covid-19* er budd y dysgwyr. Wedi cyfnod o addysgu o hirbell o Ionawr hyd at Ebrill 2021, a olygai ffrydio'n fyw pob gwers. Camp anhygoel ac eithriad o gymharu â nifer fawr o ysgolion uwchradd eraill. Llwyddodd dysgwyr Bl11-13 i ennill graddau TGAU, Uwch Gyfrannol ac Uwch rhagorol. Yn ogystal, gofalwyd am ddisgyblion bregus drwy system fugeiliol yr ysgol drwy alwadau ffôn rheolaidd i gartrefi i wirio eu lles. Mae ein dyled ni, fel Corff Llywodraethol, i'r staff yn enfawr am arwain, a gofalu am, y disgyblion mewn modd mor gydwybodol. Edmygwn hefyd y disgyblion eu hunain, am eu gwaith caled a'u dewrder mewn amgylchiadau mor anodd. Llongyfarchiadau twymgalon iawn i'r ysgol felly ar bob lefel.

Er, fel y crybwyllwyd yn gynt, roedd effaith parhaus *Covid-19* ond yn rhy bresennol ym mywyd yr ysgol, parhaodd datblygiad yr ysgol fel canolfan addysgu o'r radd flaenaf. Fe welwyd hynny yn fwyaf nodedig gydag agoriad meysydd chwarae aml-ddefnydd newydd; ffreutur enfawr, ac wyth ystafell ddysgu yn cynnwys y cyfarpar technolegol mwyaf diweddar fel cartre i'r Adran Gymraeg. Cyn bo hir, fe fydd y Stiwdio Ddrama ar ei newydd wedd, ac Adran Gerdd gyda dwy ystafell ddysgu a chanolfan hyfforddi cerddorol wedi'u hagor. Rhaid talu teyrnged i'r Pennaeth, Mr Dafydd Jenkins, a'r TRhU am weld yr angen am y fath ddatblygiadau rhyw bedair mlynedd yn ôl gan gynnig cynllun datblygu i'r Awdurdod i'w mabwysiadu. Heb y weledigaeth wreiddol honno, ni fyddai yr ysgol wedi cyrraedd y man hwn, ac felly mae ein dyled fel Llywodraethwyr yn fawr i arweinyddiaeth yr Ysgol.


Tristwch felly oedd clywed yn ddiweddar am benderfyniad y Pennaeth i ymddeol yn Rhagfyr 2021. Ers ei benodiad, yn gyntaf fel Pennaeth gweithredol yn Ionawr 2017, ac yna fel Pennaeth parhaol ym Medi 2019, arweiniodd Mr Dafydd Jenkins yr ysgol mewn modd diogel, cadarn ac ysbrydoledig mewn cyfnod digynsail ym myd addysg. Roedd ei awydd i barhau â safonau academaidd uchaf yr ysgol yn nodwedd o'i gyfnod, ac yn wir fe gafwyd canlyniadau TGAU gorau erioed yr ysgol dan ei arweinyddiaeth. Fodd bynnag, ochr yn ochr â hyn, roedd ei gonsyrn am les staff a disgyblion, yn enwedig ynghanol dyddiad du cyfnodau clo 2020-21, yn flaenllaw, ac yn wir yn bethau, a mi wn hynny fel Cadeirydd, a bwysodd yn drwm arno. Roedd diogelu 'teulu'r ysgol' yn hollbwysig iddo. Dywedodd Dirprwy Bennaeth yr ysgol, Mr Jeffrey Connick wrthyf: "Rwyf wedi cael yr anrhydedd i weithio dan Benaethiaid rhagorol ers i mi ddechrau yn yr ysgol, ond does neb wedi bod yn well na Mr. Jenkins erioed". Clywch! Clywch! Mae'n gysur i ni, serch ei ymddeoliad fel Pennaeth, i wybod bod Mr Jenkins yn aros am gyfnod i addysgu Mathemateg yn yr ysgol, ac felly ni fyddwn yn colli ein cysylltiad yn llwyr gyda gŵr a wnaeth gymaint i ddylunio'r Ysgol Gyfun Gŵyr fodern. Dymunwn y gorau iddo wrth iddo gychwyn ar gyfnod newydd yn ei yrfa broffesiynol.

Yn yr un ffordd a ffarweliwyd â Mr Jenkins, nodweddwyd 2020-21 gyda ymddeoliad un o gewri eraill Ysgol Gyfyn Gwyr, sef Mr Geraint Herbert Evans, Pennaeth yr Adran Fathemateg ers 1987. Arweiniodd Mr Evans yr Adran honno ar hyd ei gyfnod fel pennaeth arni yn hynod lwyddiannus gan ennill iddi enwogrwydd cenedlaethol fel un o Adrannau Mathemateg mwyaf llwyddiannus Cymru o ran canlyniadau arholiadau allanol. Hefyd, penderfynodd Mrs Gemma Pugh ymddeol fel Pennaeth yr Adran Wyddoniaeth yn Haf 2021 er mwyn dechrau busnes cadw'n heini. Parhaodd hithau hefyd traddodiad anrhydeddus yr Adran Wyddoniaeth o ran gorchestion academaidd. Ffarweliwyd hefyd, yn ystod y flwyddyn, â Miss Llinos Davies, sef Ail yn yr Adran Gymraeg, a Mr Tomos Jones fel Arweiydd Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg; dau athro talentog arall. Mawr yw dyled disgyblion yr ysgol dros y blynyddoedd i bob un ohonynt, nid dim ond am eu cynorthwyo i ennill canlyniadau gwych ond am wreiddio ynddynt, rwy'n siwr, cariad am oes dros y pynciau y buon nhw'n addysgu.

Ym mis Medi, croeshawyd nifer o athrawon newydd i deulu Gŵyr: Mr Robert Davies i'r Adran Fathemateg; Mrs Paula Davies, Mr Rhodri Wall, a Miss Gabrielle Murray i'r Adran Wyddoniaeth;

Miss Charlotte Doyle i'r Adran Hanes; Miss Fflur Matthias i'r Adran Gymraeg, a Mrs Lauren Prescott a Mrs Nerys Vebrel i'r Adran Saesneg. Rydym yn ffodus i benodi cymaint o athrawon talentog a brwdfrydig dros eu pynciau, ac rwy'n siwr y bydd disgyblion yr ysgol yn elwa o'u talentau. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu gwaith. Erbyn hyn mae dros 1,100 o ddisgyblion yn yr ysgol ac mae safle'r ysgol yn gyson ddatblygu, gyda mwy fyth o ddatblygiadau ar y ffordd. Mae'r holl dwf hwn o ganlyniad i lwyddiant diddiwedd yr ysgol arbennig hon. Wrth i'r Dirprwy Bennaeth, Mr Connick, weithredu fel Pennaeth interim o Ionawr 2022, dymunwn, fel Corff Llywodraethol, bob hwyl iddo ef a TRhU wrth iddynt barhau a'r gwaith o gynnal enw da arbennig yr ysgol. Rydym yn gadarn yn ein cred bod yr ysgol mewn dwylo diogel.

Cyn gorffen, estynnwn ddiolch i chi, yn rhieni a gwarcheidwaid, unwaith yn rhagor am eich cefnogaeth a chydweithrediad parod, ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio hwylus yn ystod y flwyddyn sydd



***Aldyth Williams*** **(Cadeirydd)**

## CYNLLUN GWEITHREDU ÔL AROLWG

- Crynodeb o brif dargedau'r Cynllun fel ymateb i'r adroddiad Arolwg diwethaf:
- Lledaenu arfer orau mewn agweddau ar addysgu ac asesu
- Sicrhau bod gwybodaeth yn deillio o arsylwadau dosbarth a chraffu ar lyfrau yn arwain at bennu targedau
- gwella mewn cynlluniau datblygu adrannol

## CODI SAFONAU

Mae'r ysgol yn parhau i anelu am y safonau uchaf ym mhob Cyfnod Allweddol trwy sicrhau safonau dysgu ac addysgu cyson o safon uchel, trwy osod targedau heriol i bob disgybl, trwy dracio cynnydd disgyblion yn ofalus, trwy hybu cynnydd disgyblion mewn grwpiau targed a thrwy gydweithio yn agos gyda rhieni. Mae'r ysgol yn parhau i hybu cyrhaeddiad grwpiau o ddysgwyr i ddatblygu sgiliau astudio cadarn fel eu bod yn cyrraedd yr un safonau â disgyblion eraill. Anelwn yn flynyddol at leihau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched a hefyd i leihau effaith amddifadedd, neu anghenion dysgu ychwanegol, ar gyflawniad disgyblion fel bod pob disgybl yn gallu cyflawni ei botensial yn llawn. Sefydlwyd y *Trobwynt* a'r *Encil* fel canolfannau mae staff arbenigol yn cefnogi disgyblion bregus a ADY er mwyn eu cynorthwyo mewn modd rhagweithiol. Drwy'r canolfannau hyn, rhoddir cyfle i ddisgyblion ddal i fyny â gwaith a geir yn heriol gyda chefnogaeth staff a hefyd cynhelir sesiynau cefnogi er mwyn eu hymgryfhau fel dysgwyr. Mae'r system neges testun i rieni am waith cartref na chyflwynwyd yn hybu cydweithio agos rhwng staff a rhieni. Mae'r ffocws yn parhau ar ddatblygu strategaethau i leihau effaith amddifadedd, a chynllunio cwricwlaidd mewn ymateb i ofynion Cwricwlwm i Gymru 2022 gan roi sylw arbennig ar adnabod cynnydd. Hefyd, ffocysir ar gefnogi dysgu disgyblion wedi'r cyfnodau Clo ac hunan-ynysu er sicrhau eu bod yn parhau i gyrraedd safonau uchel.

## Y DYSGU A'R ADDYSGU

Cyflwynir y wers pum cam i hybu sgiliau pwnc a'r cylch meddwl o gynllunio, datblygu a myfyrio gyda ffocws cynyddol ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol ar ddiwallu pedwar diben Cwticwlwm i Gymru 2022. Rhoddir pwyslais mawr ar lunio gwersi sy'n hybu'r defnydd o sgiliau trawsgwricwlaidd o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ac sy'n codi safonau'r sgiliau hyn trwy eu hymarfer ar draws y cwricwlwm mewn modd pwrpasol. Mae'r ysgol wedi bod yn canolbwyntio ar gael cysondeb dealltwriaeth o beth yw nodweddion gwersi ardderchog. Y mae pob athro/athrawes yn cael eu harsylwi yn ystod y flwyddyn, er mwyn monitro safonau a rhannu arfer dda. Anogir athrawon i gydweithio er mwyn arsylwi ei gilydd gan felly dysgu oddi wrth ei gilydd. Ein nod fel ysgol yw sicrhau gwersi o safon uchel yn gyson ar hyd y flwyddyn. Mae craffu ar lyfrau disgyblion pob Cam Allweddol yn rhan bwysig o brosesau hunan arfarnu'r ysgol yn flynyddol ynghyd ag adroddiad ar safonau fesul Adran. Rydym hefyd yn datblygu ein gallu fel ysgol i addysgu o hirbell yn effeithiol ac yn hyfforddi athrawon a disgyblion yn y defnydd o *Microsoft Teams* at y diben hwnnw.

## NEWIDIADAU I LAWLYFR YR YSGOL ERS EI GYHOEDDI

Cynhwysir unrhyw newidiadau i lawlyfr yr ysgol ers ei gyhoeddi yn yr adroddiad hwn.

## BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU 2021-22

Y prif dargedau ysgol gyfan yw:

- parhau i godi safonau ac anelu am y safonau uchaf ym mhob Cyfnod Allweddol, gan leihau effaith amddifadedd ar gyflawniad disgyblion a ffocysu ar gynorthwyo disgyblion penodol i ddal-i-fyny yn sgîl effaith Covid19
- datblygu strwythurau bugeiliol er mwyn ffocysu ar les a chynnydd pob disgybl
- datblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu
- ymateb i'r gofynion ar gyfer cynllunio, a gweithredu yn ôl y gyfraith , Cwricwlwm i Gymru 2022
- lledaenu arferion dysgu ac addysgu, ac asesu ar gyfer dysgu, ardderchog ar draws yr ysgol ac o hirbell
- parhau i gydweithio gyda'r Cyngor Sir i ddatblygu'r safle

## Y DEFNYDD O'R GYMRAEG

Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a disgwylir i staff a disgyblion ei defnyddio'n unig ar dir yr ysgol, ag eithrio mewn gwersi megis: Saesneg, Gwyddoniaeth (pan y'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg) ac Ieithoedd Rhyngwladol. Ar wahân i'r Saesneg, addysgir pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn CA4 bydd yn bosib dewis astudio Gwyddoniaeth naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn CA5, addysgir y Gwyddorau drwy gyfrwng y Saesneg yng Ngŵyr ond mae'n bosib eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mryn Tawe, dan drefniadaeth Partneriaeth Gŵyr-Bryn Tawe ôl 16.

## SGILIAU LLYTHRENNEDD A RHIFEDD

Y mae'r ysgol yn awyddus iawn i wella'n barhaus sgiliau sylfaenol pob disgybl fel y gallant ddarllen, ysgrifennu a siarad yn y Gymraeg a'r Saesneg a chymhwyso rhif i lefel sy'n angenrheidiol i wneud cynnydd yn yr ysgol. Yn y gorffennol, dyfarnwyd y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol i'r ysgol gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol fel cydnabyddiaeth o ardderchowgrwydd yr ysgol yn y maes. Fel rhan o'r gwaith pwysig hwn, y mae ffocws y cyfnodau bugeiliol ar lythrennedd a rhifedd wrth gyflwyno e.e. 'rheol iaith yr wythnos' a 'phos rhifedd yr wythnos'. Ffocws cwricwlwm CA3 yn arbennig yw hyrwyddo sgiliau llythrennedd a rhifedd pob disgybl i ymateb i ofynion y Cwricwlwm Newydd i Gymru a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a gwneir hynny drwy ffocysu ar e.e. yr Wyth Ymddygiad Darllen a'r Chwe Dull Ysgrifennu Anllenyddol.  Anogir rhieni a gwarcheidwaid i fynychu nosweithiau llythrennedd a rhifedd a drefnwyd gan yr ysgol er mwyn eu hyfforddi ar dechnegau hyrwyddo datblygiad sgiliau yn y meysydd allweddol hyn.

## ADOLYGU POLISÏAU'R YSGOL

Adolygwyd pob un o bolisiau'r ysgol yn ystod 2021/22 i sicrhau eu bod yn gyfredol e.e. Adolygwyd Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol newydd.





## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae gan blant anghenion addysgol ychwanegol (ADY) os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu ei fod yn ofynnol gwneud darpariaeth addysgol ychwanegol ar eu cyfer.

Nod yr ysgol yw sicrhau gwerth cyfartal i bob disgybl ac i gyflawni hyn y mae'r ysgol yn derbyn y dylai pob unigolyn gael y cyfle i gyfranogi o gwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol beth bynnag yw ei anghenion dysgu ychwanegol ac i ddatblygu hyd eithaf ei allu o fewn y cwricwlwm hwn. Seilir y polisi hwn ar yr egwyddor o gynhwysiant ac atgyfnerthir y polisi hwn gan bolisi cynhwysiant yr ysgol.

I gyflawni hyn bydd yr ysgol yn:

1. integreiddio'r disgyblion i sicrhau dosbarthiadau gallu cymysg ym Mlwyddyn 7 gan annog y defnydd o dasgau gwahaniaethol addas lle bynnag bo'r angen yn codi a lle bynnag bo'n bosib,

2. ar gyfer y pynciau craidd, hyrwyddo gweithdrefn o Flwyddyn 8 ymlaen, sy'n galluogi'r disgyblion ag anawsterau i gael sylw a chefnogaeth deilwng, ac i weithio ar gyflymder mwy addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial,

3. cyflogi Cyd-gysylltydd ADY a fydd yn:

    a. darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i'r athrawon ar ddisgyblion penodol ag anawsterau addysgiadol amrywiol,
    b. gwerthuso profiadau addysgol disgyblion ag anawsterau dysgu a monitro darpariaeth yr ysgol ar hyn,
    c. gweithredu fel dolen-gyswllt rhwng y plant, y rhieni, yr ysgol a'r holl weithwyr/asiantaethau arbenigol,
    d. trefnu'r system Cynlluniau Addysg Unigol,
    e. cyfrannu at sicrhau fod cyfundrefnau'r ysgol yn addasu'n llyfn i ymateb i ofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

4. cynnal dulliau asesu ar draws y cwricwlwm sy'n cydnabod gwendidau a chryfderau disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol, tracio cynnydd y disgyblion hynny a gosod targedau addas er mwyn hyrwyddo datblygiad pellach,

5. cydnabod bod llais gan y disgybl unigol wrth drafod ei anghenion addysgol,

6. derbyn fod pob athro yn athro ADY a phob aelod o'r staff â chyfraniad pwysig i addysg disgyblion ag ADY o fewn yr ysgol.

Ar y foment, mae 151 o'n disgyblion ar y gofrestr ADY ond wrth i'r ysgol weithredu a chyflwyno'r Ddeddf ADY a Thribiwnlys i Gymru yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, rhagwelir newidiadau i'r neferoedd yn sgil disodli'r hen system GY, GY+ a datganiadau gyda phawb yn dilyn yr un system o dderbyn Cynlluniau Datblygu Unigol yn ôl yr angen.

Fe agorwyd Uned Addysg Arbennig o fewn yr ysgol ym Medi 2009. Mae'r uned yma'n cynnig darpariaeth i uchafswm o ddeuddeg o ddisgyblion ag anawsterau dysgu cyffredinol. Nôd "Y Tŷ", yw cynnig darpariaeth arbenigol, benodol i'r disgyblion o fewn awyrgylch tawel, cartrefol, wrth hybu hyder ac annibyniaeth y disgyblion. Mae gan yr uned bolisi o integreiddio cryf, ac fe roddir pob cyfle i holl ddisgyblion 'Y Tŷ' i ymgymryd â gwersi a gweithgareddau o fewn y prif-ffrwd.

## IECHYD A DIOGELWCH

Trwy weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod ac eraill, y mae'r ysgol yn ffocysu ar gydymffurfio gyda holl ofynion statudol Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod disgyblion, staff ac ymwelwyr yr ysgol yn ddiogel ar bob achlysur, yn enwedig wrth ystyried effaith Covid19. Y mae gan yr ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch sy'n cael ei ddiwygio'n flynyddol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn ymrwymo i bolisi o Fwyta'n Iach, ac o ganlyniad rydym wedi lleihau ar argaeledd bwydydd megis sglodion yn y ffreutur.

## CHWARAEON

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn y gwireddwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol yn ystod y flyddyn, sef bod y disgyblion yn cael y cyfle i:

1. Fwynhau amrediad eang o weithgareddau, gyda chyfloedd cyfartal,
2. Fagu hunan hyder wrth gyd-chwarae ag eraill,
3. Ddatblygu eu sgiliau fel unigolion ac fel aelodau o dîm

Hefyd, y mae'r ffreutur yn cydymffurfio yn llwyr a chanllawiau Bwyta'n Iach Llywodraeth Cymru.

Cynigir y gweithgareddau canlynol: pêl-rwyd, hoci, pêl-droed merched a bechgyn, rygbi merched a bechgyn, pêl-fasged, gymnasteg, nofio, traws gwlad, athletau, rownderi, pêl-fâs, tenis, criced, pêl-bluen, pêl-foli, sgïo, gweithgareddau awyr agored.
Penodwyd Gavin Lewis fel Swyddog Hybu Chwaraeon a Ffitrwydd yr ysgol, dan nawdd Llywodraeth Cymru, gyda'r brîff penodol o gynnig hyd yn oed mwy o gyfleoedd chwaraeon a gwneud y maes yn fwy deniadol fyth i gylch ehangach o ddisgyblion. Cyniga Mr Lewis amrediad eang o chwaraeon amgen, yn eu plith y canlynol: dringo, syrffio, golff a dawns.

## ANABLEDD

Y mae'r Llywodraethwyr yn ymroddedig i sicrhau cydraddoldeb i bob person anabl sy'n defnyddio safle'r ysgol. Yn sgil hyn, y mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol gyda'r bwriad o wella darpariaeth yr ysgol. Adolygir y Cynllun yn flynyddol a c o g a n l y n i a d y mae gan yr ysgol gofnod o anableddau rhanddeiliaid a gwnaed camau arwyddocaol wrth adnewyddu, trwy raglen barhaus, y drysau, adeiladau, rampiau mynediad, ac yn y blaen. Bwriada'r ysgol barhau i weithio'n ddyfal dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau mwy o gydraddoldeb anabledd.

## ADEILADAU A MATERION Y SAFLE

Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol fu agoriad bloc addysgu newydd ac adnoddau chwaraeon yn cynnwys meysydd 2G, 3G, MUGA, trac rhedeg a thrac naid hir, sef penllanw gwaith Cynllun Band B Llywodraeth Cymru sydd wedi costio o gwmpas £6M. Mae'r adeilad newydd yn cynnwys wyth ystafell addysgu sylweddol eu maint yn ogystal â ffreutur pwrpasol i wasanaethu y nifer gynyddol o ddysgwyr. Mae'r ffreutur wedi ei chynllunio i ddyblu fel neuadd i weithgareddau amrywiol a phrynwyd piano grand Yamaha safonol i'w leoli yno gogyfer â chyngerddau ac eisteddfodau'r dyfodol - unwaith y daw rhwystrau Covid i ben. Mae'r wyth ystafell addysgu yn gartref haeddiannol i'r Adran Gymraeg. Y mae swyddfa Gareth Williams, y Dirprwy Bennaeth gweithredol a chyn Bennaeth yr Adran Gymraeg wedi ei leoli'n strategol yn yr adeilad. Hyfryd yw gweld y disgyblion yn elwa o fedru defnyddio'r adnoddau chwaraeon allanol newydd, yn enwedig ar ôl cyfnodau glaw lle nad oedd hyn yn bosib iddynt wneud o'r blaen yn sgîl yr hen feysydd chwarae mwdlyd.

Y mae gwaith pellach yn mynd yn ei flaen ar dir yr ysgol. Mae’r Stiwdio Ddrama yn cael ei hail wampio yn ogystal â’r hen ffreutur i fod yn Adran Gerdd newydd bwrpasol gyda digon o adnoddau a lle i ymarferion. Mae’r gwaith hwn eto yn rhan o Gynllun Cyfalaf Band B Llywodraeth Cymru. Eisoes, mae’r ysgol wedi prynu piano grand bychan ‘John Broadwood’ newydd i’w leoli yn yr Adran Gerdd newydd ac wrthi yn buddsoddi mewn adnoddau pellach sylweddol hefyd.

Rydym yn disgwyl y gwaith o adnewyddu tô'r Adran Saesneg i gychwyn yn fuan fel ymateb i geisiadau a fu ar y gweill ers dros dair blynedd erbyn hyn am arian o’r Awdurdod. Unwaith daw’r gwaith tô i ben, y bwriad yw gwella ystafelloedd mewnol y bloc addysgu yma. Hefyd ar y gweill yw ail-wampio’r hen lolfa a chegin flaenorol Bloc y Chweched i fod yn ganolfan fodern ac effethlon i’r Chweched yn unig o Fedi 2022 ymlaen. Mae yna waith sylweddol yn digwydd yn ogystal i wella maes parcio’r ysgol er mwyn ffocysu ar ddiogelwch traffig ar y safle a sicrhau nad oes cerbydau yn cymysgu gyda disgyblion.

Mae’r gwaith o osod adrannau’n strategol gyda'i gilydd yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn her ond o’r diwedd rydym yn gweld cynnydd o ran y cynlluniau. Mae Cymraeg wrth gwrs wedi ei leoli yn yr adeilad newydd ac y mae gwaith ar y gweill i wella’r bloc Saesneg. Mae Cerdd yn symud i’w hadran newydd a fydd wedi ei lleoli cyn hir gydag adrannau eraill o fewn yr un Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Mae’r Adran Ieithoedd Rhyngwladol wedi ymgartrefu ers bron dwy flynedd yn yr hen adran Gerdd ac y mae’r Adran Addysg Gorfforol wedi gweld buddsoddiad sylweddol o ran eu hadnoddau. Fe fydd staff yr adran honno yn symud eu hystafelloedd addysgu i’r cabanau ger y Neuadd Chwaraeon yn fuan er mwyn sicrhau mwy o undod i’r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Y mae’r Adran Fathemateg yn symud i ran o hen safle Canolfan y Chweched o Fedi 2022 gan felly sefydlu Maes Dysgu a Phrofiad unedig.

Y mae cynlluniau amrywiol ar y gweill i ail beintio ardaloedd yn cynnwys yr Adran Saesneg a phrif adeilad yr ysgol yn cynnwys y Neuadd a’r hen Adran Fathemateg. Rydym hefyd yn cychwyn ar gynllun i wella ansawdd rhai lloriau mewnol ac i adnewyddu arwynebedd y buarth. Rydym hefyd wedi cychwyn ar drafodaethau i ail gynllunio toiledau bechgyn/merched y prif adeilad.

Mae hyn oll, wrth gwrs, ond yn bosib yn sgîl y cyllid sydd bellach wrth gefn yn dilyn cyfnodau Clo Covid lle gwelwyd gwariant yr ysgol yn llai na’r hyn y cynlluniwyd amdano o fewn y gyllideb ariannol. Rydym wrthi yn gweithio ar gynlluniau i wella ardaloedd eraill o gwmpas yr ysgol yn 2022/23 a 2023/24 yn cynnwys yr Adran Wyddoniaeth fel ffocws rhaglen dreigl dros y blynyddoedd nesaf.

## TOILEDAU’R YSGOL/DŴR YFED

Y mae gan yr ysgol nifer ddigonol o doiledau yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Lleolir toiledau yn y rhan fwyaf o brif flociau addysgu’r ysgol, wedi’u clustnodi ar gyfer defnydd gan flynyddoedd ysgol penodol. Y mae gan yr ysgol hefyd doiledau digonol i ymateb i nifer y staff. Glanheir y toiledau’n ddyddiol gan Wasanaethau Glanhau’r Awdurdod Lleol. Arolygir cyflwr y toiledau’n ddyddiol gan lanhawyr a staff y safle. Darperir adnoddau toiled allan o gyllid yr ysgol. Y mae gan y rhan fwyaf o’r toiledau sychwyr dwylo electronig. Hefyd, y mae ffynhonnell o ddŵr yfed glân ar gael i ddisgyblion a staff yr ysgol fel arfer, ond fe gygyngir hwn yn gyfyngedig ar hyn o bryd o ganlyniad i effaith Covid19

## AMSERAU'R DYDD

| | |
|---|---|
| 8.30 | Athrawon yn yr ystafelloedd cofrestru |
| 8.40 | Disgyblion yn mynd i'w ystafelloedd cofrestru penodedig. |
| 9.00 | Gwers 1 |
| 9.50 | Gwers 2 |
| 10.40 | Egwyl |
| 11.00 | Gwers 3 |
| 11.50 | Gwers 4 |
| 12.40 | Cinio i Fl 10-13 - Gwers 5 i Fl 7-9 |
| 1.30 | Cinio i Fl 7-9 - Gwers 5 i Fl 10-13 |
| 2.20 | Gwers 6 |
| 3.10 | Rhyddhau'r disgyblion. |

## DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU'R YSGOL 2021/22

| | | **Gwyliau Hanner Tymor** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tymor** | **Dechrau** | **o** | **i** | **Diwedd** | **Diwrnodau** |
| **Hydref 2021** | **Iau**<br>**2 Medi** | **Llun**<br>**25 Hydref** | **Gwener**<br>**29 Hydref** | **Gwener**<br>**17 Rhagfyr** | **72** |
| **Gwanwyn 2022** | **Mawrth**<br>**4 Ionawr** | **Llun**<br>**21 Chwefror** | **Gwener**<br>**25 Chwefror** | **Gwener**<br>**8 Ebrill** | **64** |
| **Haf 2022** | **Llun**<br>**25 Ebrill** | **Llun**<br>**30 Mai** | **Gwener**<br>**3 Mehefin** | **Gwener**<br>**22 Gorffennaf** | **59** |
| | | | | **Cyfanswm** | **195** |

Byddyr ysgol ar gau ar y dyddiadau canlynol ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd/ Gwaith Paratoi ar:-
**02/09/2021, 29/11/2021, 04/01/2022, 18/02/2022, 29/04/2022, 23/06/2022, 14/07/2022.** ***Bydd Gŵyl Calan Mai ar Llun, 2 Mai 2022***

## MANYLION CYLLIDOL (Ebrill 2020- Mawrth 2021)

Am fanylion cyllideb yr ysgol yn 2020-21– **gweler yr Atodiad isod** sydd wedi ei ddarparu gan yr Awdurdod.

Unwaith eto, ni hawliwyd unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth gan aelodau'r Corff Llywodraethol. Er hynny, dymuna'r Llywodraethwyr estyn llawer o ddiolch i'r ysgol am ddarparu lluniaeth ysgafn o de/coffi a bisgedi gogyfer â chyfarfodydd y Corff Llywodraethol – gwerthfawrogir hyn yn fawr.

Diolchwn i 'Ffrindiau Gŵyr' am eu gwaith cyson i godi arian ac am eu cyfraniad rheolaidd gwerthfawr tuag at offer/adnoddau a brynwyd fel rhan o Gynllun Datblygu'r ysgol.

Hoffwn hefyd ddatgan ni dderbyniwyd unrhyw fuddiannau ariannol neu gymwynasau gan Lywodraethwyr/Staff yr ysgol yn 2020-21.

| **YSGOL/SCHOOL:** | Ysgol Gyfun Gwyr |
|---|---|

**MANTOLEN GWARIANT/STATEMENT OF ACTUAL EXPENDITURE 2020/21**

| | **Gwariant Dirprwyedig/Delegated Expenditure £** | **Gwariant heb Ddirprwyo/ Non-Delegated Expenditure £** | **Cyfanswm Gwariant Net/Total Net Expenditure £** |
|---|---|---|---|
| Cyflogau Athrawon/Teachers Salaries | 3,479,789 | 19,807 | 3,499,596 |
| Cyflogau/Salaries | 830,890 | 125,457 | 956,347 |
| Costau eraill ar y Cyflogau/Other Employee Costs | 546 | -720 | -174 |
| Safle/Premises | 156,333 | | 156,333 |
| Trafnidiaeth/Transport | 2,638 | 533,114 | 535,752 |
| Gwasanaethau ac Adnoddau/Supplies & Services | 383,783 | | 383,783 |
| Ad-daliadau/Recharges | 151,773 | 1,058 | 152,831 |
| | | | |
| ***Gwariant Crynswth/Gross Expenditure*** | ***5,005,752*** | ***678,717*** | ***5,684,469*** |
| | | | |
| *Incwm Grant/Grant Income* | -496,548 | | -496,548 |
| *Incwm/Other Income* | -89,389 | -86,435 | -175,824 |
| | | | |
| ***Incwm Crynswth/Gross Income*** | ***-585,936*** | ***-86,435*** | ***-672,371*** |
| | | | |
| ***Gwariant - Net - Expenditure*** | ***4,419,815*** | ***592,282*** | ***5,012,097*** |
| | | | |

| **WRTH GEFN/RESERVES:** | **£** |
|---|---|
| DOSRANIAD FFORMIWLA TERFYNOL FINAL FORMULA ALLOCATION: | 4,956,569 |
| CYFANSWM GWARIANT NET TOTAL NET EXPENDITURE: | 4,419,815 |
| **TROSGLWYDDO I/WRTH) YR WRTH GEFN TRANSFER TO/(FROM) RESERVES:** | **536,754** |
| | |
| BALANS AGORIADOL AR YR WRTH GEFN OPENING BALANCE ON RESERVES 01/04/20 | 176,631 |
| **BALANS CAU AR YR WRTH GEFN CLOSING BALANCE ON RESERVES: 31/03/21** | **713,384** |

## CYMWYSTERAU ALLANOL 2021

Llongyfarchiadau mawr i holl staff a disgyblion yr ysgol am yr holl waith caled a wnaed i ennill canlyniadau ardderchog yn CA4 a CA5.

Eleni, **gweler yr Atodiad isod** am fanylion llawn y canlyniadau.

| Tymor: Mehefin 2021 | Cymhwyster: TGAU | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PWNC** | **NIFER** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **G** | **F** | **U** |
| ADDYSG GORFF | 43 | 5 | 10 | 15 | 7 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ADDYSG GREYDDOL | 35 | 9 | 9 | 10 | 6 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| ALMAENEG | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| AST CYFRYNGAU | 6 | 0 | 1 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CELF | 28 | 5 | 4 | 8 | 5 | 2 | 1 | 0 | 3 | 1 |
| CERDDORIAETH | 16 | 8 | 5 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFRIFIADUREG | 23 | 3 | 6 | 7 | 2 | 2 | 1 | 0 | 2 | 0 |
| CYMRAEG LLENYDDIAETH | 132 | 23 | 27 | 50 | 25 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYMRAEG IAITH | 155 | 27 | 39 | 44 | 32 | 9 | 3 | 0 | 1 | 0 |
| DAEARYDDIAETH | 28 | 12 | 4 | 8 | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| DRAMA | 19 | 6 | 5 | 5 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| DYLUNIO A THECHNOLEG | 38 | 7 | 6 | 14 | 8 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| FFOTOGRAFFIAETH | 25 | 3 | 7 | 3 | 9 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| FFRANGEG | 32 | 20 | 3 | 6 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| HANES | 38 | 12 | 11 | 11 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| IECHYD A GOFAL | 39 | 8 | 8 | 10 | 6 | 3 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| MATHEMATEG | 155 | 38 | 13 | 59 | 27 | 13 | 5 | 0 | 0 | 0 |
| MATHEMATEG RHIFEDD | 111 | 29 | 15 | 51 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| SAESNEG IAITH | 155 | 33 | 39 | 60 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| SAESNEG LLEN | 142 | 14 | 31 | 45 | 43 | 8 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| SBAENEG | 17 | 5 | 2 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| TECSTILAU | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| LLADIN L1 | 10 | 4 | 1 | 4 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **NIFER** | **9** | **8** | **7** | **6** | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** |
| ELECTRONEG (Eduqas) | 13 | 2 | 2 | 2 | 5 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| LLADIN (Eduqas) | 9 | 2 | 1 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Y FAGOLORIAETH** | **NIFER** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **D** | **P1** | | | |
| HER SGILIAU CA4 | 141 | 15 | 22 | 46 | 54 | 0 | 5 | | | |

| CYMHWYSTER DWYRADD TGAU | NIFER SAES | NIFER CYMR | ** | *A | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | EE | EF | FG | GG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWYDDONIAETH | 121 | 34 | 38 | 5 | 7 | 12 | 27 | 14 | 25 | 18 | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 | 1 |

| CYMHWYSTER L2 | NIFER | Dist | Merit | U |
|---|---|---|---|---|
| MATHEMATEG YCHWANEGOL L2 | 23 | 19 | 3 | 1 |
| **CYMHWYSTER L1** | **NIFER** | **Pass** | | |
| SWEET | 7 | 7 | | |

| CYMHWYSTERAU GALWEDIGAETHOL | NIFER | Dist* | Dist | Merit2 | PassL2 | PassL1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BTEC L1/2) | 25 | 3 | 2 | 4 | 9 | 7 |
| ARLWYO & LLETYGARWCH (TYST L1/2) | 22 | 5 | 2 | 6 | 5 | 4 |

| | | LEFEL | | |
|---|---|---|---|---|
| **LEFEL MYNEDIAD** | **NIFER** | 3 | **2** | **1** |
| MATHEMATEG | 2 | 2 | 0 | 0 |
| GWYDDONIAETH | 2 | 2 | 0 | 0 |
| SAESNEG | 21 | 21 | 0 | 0 |
| CYMRAEG | 4 | 4 | 0 | 0 |

| Tymor: Mehefin 2021 | Cymhwyster : TAG / UG | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PWNC** | **NIFER** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **U** |
| ADDYSG GRE (TAG AS) | 5 | 2 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| ADDYSG.GOR (TAG AS) | 9 | 2 | 4 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| AST BUSNES (TYST. L3) | 8 | 3 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 |
| AST. CYFRYNGAU (TAG AS) | 3 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| BYWYDEG (TAG AS) | 22 | 9 | 8 | 1 | 4 | 0 | 0 |
| CELF A DYL (TAG AS) | 3 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CEMEG (TAG AS) | 26 | 9 | 8 | 5 | 1 | 2 | 1 |
| CERDD (TAG AS) | 5 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFRIFIADUREG (TAG AS) | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYMRAEG IA (TAG AS) | 7 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| DAEARYDDIAETH (TAG AS) | 9 | 2 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| DRAMA (TAG AS) | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| D.T. (TAG AS) | 15 | 4 | 6 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| ELECTRONEG (TAG AS) | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| FFISEG (TAG AS) | 20 | 11 | 2 | 4 | 2 | 0 | 1 |
| FFOTOGRAFFIAETH (TAG AS) | 9 | 3 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| FFRANGEG (TAG AS) | 4 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| GWLEIDYDDIAETH (TAG AS) | 3 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| HANES (TAG AS) | 16 | 8 | 3 | 2 | 3 | 0 | 0 |
| IECHYD A G (TAG AS) | 20 | 9 | 2 | 7 | 1 | 0 | 1 |
| MATHEMATEG (TAG AS) | 28 | 20 | 5 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| MATHEMATEG PELLACH (TAG AS) | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SAESNEG (TAG AS)** | **10** | **2** | **4** | **2** | **1** | **1** | **0** |
| **SEICOLEG (TAG AS)** | **12** | **7** | **2** | **3** | **0** | **0** | **0** |
| **TECSTILAU (TAG AS)** | **5** | **1** | **3** | **1** | **0** | **0** | **0** |
| **TWRISTIAETH (TYST. L3)** | **3** | **1** | **0** | **0** | **0** | **0** | **2** |

| TYSTYSGRIF L3 | NIFER | Dist* | Dist | Merit | Pass |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWYDDOR BWYD GYMHWYSOL (L3)** | **3** | **0** | **0** | **3** | **0** |

| Tymor: Mehefin 2021 | Cymhwyster: TAG / Lefel A | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PWNC** | **NIFER** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **U** |
| ADDYSG GRE (TAG A) | 7 | 1 | 3 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| ADDYSG.GOR (TAG A) | 4 | 0 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| AST. CYFRYNGAU (TAG A) | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| AST.BUSNES (Diploma L3) | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| BYWYDEG (TAG A) | 27 | 9 | 11 | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| CELF A DYL (TAG A) | 5 | 1 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CEMEG (TAG A) | 31 | 6 | 10 | 7 | 7 | 1 | 0 | 0 |
| CERDDORIAETH (TAG A) | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFRIFIADUREG (TAG) | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYMRAEG IA (TAG A) | 9 | 2 | 3 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| DAEARYDDIAETH (GCE A) | 3 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| DRAMA (TAG A) | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| D.T. (TAG A) | 9 | 1 | 2 | 4 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| ELECTRONEG (TAG A) | 6 | 0 | 1 | 1 | 3 | 0 | 1 | 0 |
| FFISEG (TAG A) | 15 | 2 | 8 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| FFOTOGRAFFIAETH (TAG A) | 9 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| FFRANGEG (TAG A) | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| GWLEIDYDDIAETH (TAG A) | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| HANES (TAG A) | 12 | 2 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| MATHEMATEG (TAG A) | 31 | 26 | 4 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| MATHEMATEG PELLACH (TAG A) | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| SAESNEG (TAG A) | 9 | 1 | 3 | 1 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| SEICOLEG (TAG A) | 10 | 2 | 3 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| IECHYD A G (TAG A) | 9 | 0 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| **Y FAGOLORIAETH** | | | | | | | | |
| HER SGILIAU - TYST.L3 | 74 | 21 | 22 | 14 | 14 | 0 | 3 | 0 |

| CYMHWYSTER DWYRADD LEFEL A | NIFER | ** | *A | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | EE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| IECHYD A G (TAG AD) | 9 | 0 | 1 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| CYMHWYSTER BTEC | NIFER | D* | D | M | P |
|---|---|---|---|---|---|
| GWAS CYHOEDDUS L3 BTEC | 12 | 1 | 4 | 5 | 2 |
| PEIRIANNEG L3 BTEC | 7 | 4 | 0 | 3 | 0 |

## GORCHESTION Y TU ALLAN I WERSI 2020-21

Estynnwn longyfarchiadau mawr i ddisgyblion yr ysgol ar eu gorchestion y tu allan i wersi yn ystod blwyddyn heriol iawn. Diolchwn hefyd i'r staff am bob cymorth.

**Gweler yr Atodiad** am fanylion llawn.





# Gorau Gŵyr

# 2020/2021



# DATHLU GWEITHGAREDDAU A LLWYDDIANNAU DISGYBLION YSGOL GYFUN GWŶR

Bu 2020 / 2021 yn flwyddyn eithriadol arall a heriodd bob agwedd ar fywyd Ysgol Gyfun Gŵyr. Ond er gwaethaf y gofid, braf yw medru parhau i ddathlu llwyddiannau ysgubol disgyblion talentog ein hysgol mewn gweithgareddau allgyrsiol dirifedi a hynny er gwaethaf y Pandemig! Prawf cadarn o ddycnwch a dyfalbarhad eithriadol ein disgyblion ni yma yng Ngŵyr. Mae mor hyfryd gweld rhai pethau yn aros yn ddigyfnewid! Diolch i'r holl staff sy'n gwirfoddoli ac yn ymroi mor ddiflino o'u hamser i sicrhau bod disgyblion ein hysgol yn cael mynediad i'r fath amrediad cyfoethog ac eang o weithgareddau amrywiol. Cyfranna hyn gymaint at les emosiynol, iechyd, creadigrwydd, hyder a datblygiad ein disgyblion yn ddinasyddion cyflawn. Mae'r cyfleoedd a gynigir yn anhygoel a'r llwyddiannau ar bob lefel yn wefreiddiol a dyma flas i chi o dalent cynhenid ein plant ni!

## AR Y MAES CHWARAEON

### Gorchestion Addysg Gorfforol 2020 / 2021

#### Criced

- Cafodd y disgyblion canlynol eu dewis yng Ngharfan Criced Cymru. Llwyddon nhw chwarae sawl gem dros yr haf wedi'r cyfnod clo: Theo Rogers Bl.8 (wedi ei ddewis fel capten ar y tîm), Lewis Edwards Bl.9 ac Ollie Rogers Bl.10.
- Cafodd Thomas Edwards o Flwyddyn 7 ei ddewis fel rhan o Garfan Criced Cymru Dan 12.
- Mae Thomas Edwards, Max Holland ac Elis Thomas Bl.7, Theo Rogers ac Evan Godwin Bl.8, Lewis Edwards, John Mann, Cai Gealy, Tomos Chivers, Ryan Evans a Harri Rees Bl.9 ac Ollie Rogers Bl.10 i gyd yn aelodau o dimoedd Criced De Cymru ar gyfer eu grŵp oedran.
- Mae Thomas Edwards Bl.7 a Theo Rogers Bl.8 yn aelodau o dîm Criced Cymru o Dan 13. Mae Theo wedi bod yn gapten ar y tîm sawl gwaith.
- Mae Lewis Edwards Bl.9 yn aelod o Dîm Criced Cymru (o dan 14).
- Mae Ollie Rogers Bl.10 yn aelod o Dîm Criced Cymru (o dan 15).

#### Rygbi

- Mae Joe Rees, Ben Thomas, a Morgan James Bl.12 a Cameron Jones Bl.13 wedi ennill eu lle yng ngharfan Y Gweilch (o dan 18)
- Mae'r bechgyn canlynol o Flwyddyn 11 wedi ennill lle yng ngharfan o dan 16 Gorllewin y Gweilch - Alex Jones a Kallum Morris. Mae Ben Morris hefyd wedi ennill lle yn y garfan er ei fod blwyddyn yn ifancach.
- Cafodd Cameron Jones Bl.13 ei ddewis i garfan rygbi Cymru o dan 20 ar gyfer Pencampwriaeth y 6 Gwlad sy'n cymryd lle yng Nghaerdydd eleni. Tipyn o gamp gan ei fod 2 flynedd yn ifanc. Enillodd Cameron ei gap cyntaf wrth ddod o'r fainc mewn 2 o'r gemau. Llwyddodd i ddechrau'r gêm yn erbyn yr Alban ar Nos Fawrth 14 Gorffennaf.

#### Pêl-droed

- Mae Elis Thomas Bl.7 yn rhan o academi pêl-droed Llanelli
- Mae Arthur Downing a Jack Goddard Bl.7 wedi ennill lle fel rhan o dîm Ysgolion Pêl-droed Abertawe o dan 13 (flwyddyn yn gynnar)

- Mae Kyle Hughes Bl.10 yn rhan o academi pêl-droed Llanelli. Mae Kyle ynghyd a Joe Holland hefyd o flwyddyn 10, wedi ennill lle yng ngharfan pêl-droed ysgolion Abertawe o dan 15.
- Mae Lewis Bell a Sonny-Jay Bourne Bl.11 wed ennill lle fel rhan o dîm Ysgolion Pêl-droed Abertawe o dan 15.  Lewis yn cyrraedd y garfan am y pumed flwyddyn yn olynol tra bod Sonny yn ennill ei le am y tro cyntaf.
- Enillodd Lola Cannon a Gwenan Phillip Bl.7, Evie Davies, Sophie Stevens, Lauren Elimelech a Menna Thomas Bl.8 le fel rhan o dîm Merched Ysgolion Pêl-droed Abertawe o dan 13.
- Llwyddodd Arthur Downing a Jack Goddard Bl.7, Liam Didams Bl.8, Kyle Hughes a Joe Holland Bl.10, Lewis Bell, Osian Fitzgerald-Davies a Sonny-Jay Bourne Bl.11 i gyd i ennill lle yng ngharfan pêl-droed ysgolion Abertawe ar gyfer eu grŵp oed penodol.
- Roedd Arthur Downing a Jack Goddard Bl.7 yn rhan o dîm pêl-droed Ysgolion Abertawe a enillodd Gwpan Cymru ar ddechrau Gorffennaf.19
- Dewiswyd Sophie Stephens Bl.8 ar gyfer sgwad Cymru ar gyfer ei hoedran.

### Traws Gwlad



- Llongyfarchiadau i Aled Tumelty Bl.11 (pan oedd ym mlwyddyn 10 cyn y cyfnod clo) ar ddod yn bumed ym mhencampwriaeth draws gwlad Ysgolion Cymru ym Mhenbre. O ganlyniad,
cafodd ei ddewis i gynrychioli Tîm Traws Gwlad Cymru a oedd fod i gystadlu ym Marathon
Byr Llundain. Yn anffodus cafodd hwn ei ohirio oherwydd y cyfnod clo.

### Athletau

- Fe wnaeth Dylan Morgan Bl.11 (pan oedd yn flwyddyn 10 cyn y cyfnod clo) ennill y pentathlon (800m, 200m, Naid Hir, Pwys a chlwydi) ym mhencampwriaeth Athletau dan do Ysgolion Cymru yng Nghaerdydd.  O ganlyniad cafodd ei ddewis i gynrychioli Tim Athletau Cymru yn y pentathlon a wnaeth gystadlu yn y SAIAB (sef Cystadleuaeth Athletau Prydain) yng Nglasgow.
- Fe wnaeth William Trott Bl.11 (pan oedd yn flwyddyn 10 cyn y cyfnod clo) ennill y naid polyn ym mhencampwriaeth Athletau dan do Ysgolion Cymru yng Nghaerdydd gan hefyd dorri record Cymru ar gyfer bechgyn o dan 15. O ganlyniad cafodd ei ddewis i gynrychioli Tim Athletau Cymru yn y naid polyn a wnaeth gystadlu yn y SAIAB (sef Cystadleuaeth Athletau Prydain) yn Glasgow.  Fe enillodd William y gystadleuaeth hon ar gyfer bechgyn o dan 15 a daeth yn ail ar gyfer bechgyn o dan 17.

### Gymnasteg



- Llongyfarchiadau i Fay Ross Bl.8 ar gael ei dewis yn rhan o garfan gymnasteg Cymru

### Hoci

- Daeth Rosie Jones Bl.10 yn rhan o dîm hoci Cymru (o dan 16)

### Tenis

- Dewiswyd Nia Lewis Bl.8 i garfan De Cymru o dan 14

## GWOBR DUG CAEREDIN

Cafwyd mis o weithgareddau llwyddiannus dros Orffennaf 2021 ar ôl blwyddyn heriol iawn i'r plant gyda phrinder o weithgareddau ar draws yr ysgol. Llwyddodd 44 i gwblhau'r alldaith Efydd ar Benrhyn Gŵyr ym mis Gorffennaf.

Roedd 23 o fyfyrwyr y Chweched wedi ymrwymo i gyflawni'r Wobr Aur eleni (cyfuniad o ddisgyblion Bl. 12 a 13). Cafwyd tywydd gwlyb, niwlog a chrasboeth ar ddyddiau gwahanol yn ystod yr alldaith (syndod ni ddaeth yr eira!) a chafwyd caniatâd o'r sir yn hwyr iawn yn y flwyddyn. Felly roedd oedd rhaid rhedeg y 2 alldaith 4 dydd dros gyfres o 2 benwythnos yn olynol. Roedd yr alldaith a'r tywydd yn heriol iawn i'r disgyblion! Serch hynny llwyddodd pawb i gwblhau'r alldaith. Mae'r disgyblion yn parhau i weithio ar gyflawni'r adrannau gwirfoddoli, adloniant corfforol a sgil sy'n cymryd 18 mis i'w cwblhau.

## AR Y LLWYFAN DIWYLLIANNOL

**Cymreictod**

- Yn ystod y cyfnod clo fe grëwyd cyfrif Instagram er mwyn cyfathrebu gyda'r disgyblion. Fe wnaeth aelodau o'r 6ed ddechrau rheoli'r cyfrif bob dydd Sadwrn yn cynnwys eu hoff ganeuon a gweithgareddau (e.e. rhaglenni/ cyfrifon Instagram) gyda'r gynulleidfa. Ehangwyd hynny i CA3 a 4 hefyd.
- Rhannwyd caneuon Cymraeg, gweithgareddau'r Urdd a'r Fenter, gyda'r disgyblion ar Instagram a Thrydar hefyd. Roedd yr ymateb yn bositif ond anodd yw nodi rhif oherwydd natur y cyfryngau cymdeithasol. Rhannwyd gwybodaeth berthnasol gyda thiwtoriaid 7-9 er mwyn iddynt gysylltu gyda'r dosbarthiadau cofrestru hefyd.
- Mae dosbarthiadau blynyddoedd 7 ac 8 yn parhau gyda'r daflen Gymreictod. Maent yn derbyn amser egwyl ychwanegol (adeg cofrestru) fel gwobr.
- Dathlodd Bl.7 ac 8 Ddiwrnod Miwsig Cymru ar y 15fed o Hydref gyda gig gan Bronwen Lewis a bydd modd ail-ddefnyddio'r fideo. Roedd y disgyblion wrth eu bodd.
- Mae bob dosbarth ym Ml.7 wedi bod yn paratoi gwasanaethau (pob pythefnos) gydag elfen o Gymreictod, e.e. 7B ar fudo i Batagonia a 7C ar Dryweryn.
- Cynhaliwyd cystadleuaeth i lunio posteri Cymreictod i Fl.7-9 hefyd. Mae'r rhain i'w casglu.
- Rydym yn parhau i hybu 'yr awr fwy' gyda'r Urdd gan nad oes gweithgareddau ar safle'r ysgol.
- Llwyddodd 7N i ennill gwobr Taflen Gymreictod i flynyddoedd 7 ac 8. Eu gwobr oedd parti pitsa yng ngofal yng Nghegin Mr Henry.
- Fe wnaeth disgyblion Bl.7 greu fideo ar gyfer 'Ffau Dreigiau' y Siarter Iaith yn Abertawe, gan lwyddo i ennill yr uchafswm o £600. Bydd yr arian yn cael ei wario ar weithgareddau Cymreictod yr ysgol.
- Ar Ddydd Mercher 16 Mehefin, cafodd y disgyblion (a'r staff!) gyfle i wisgo coch er mwyn dangos cefnogaeth i dîm pêl-droed Cymru. Casglwyd £873 i wasanaethau cancr Ysbyty Felindre Caerdydd.
- Sefydlodd Menter Iaith Abertawe Cynghrair ar-lein ('Fantasy Football') i ysgolion Abertawe. Rhannwyd y wybodaeth gyda'r tiwtoriaid a bu nifer o ddosbarthiadau yn dilyn hynt a helynt eu timoedd dewisol yn ystod y cyfnod cofrestru - cyfle gwych iddynt drafod yr Ewros yn y Gymraeg.
- Mae disgyblion y 6ed dosbarth wedi bod yn cyd-weithio gyda'r Fenter Iaith wrth wirfoddoli yn eu clwb pêl-droed lleol er budd disgyblion cynradd. Mae'r Fenter Iaith leol yn cyd-weithio gyda thîm pêl-droed yr Elyrch ar hyn.

**Shwmae Ysgol Gyfun Gŵyr**

Ar ddiwrnod Shwmae Sumae eleni ym Medi, cafodd ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 dipyn o fraint o gael gig gan y gantores Bronwen Lewis yn eu dosbarthiadau. Recordiodd Bronwen Lewis ei set o ganeuon yn arbennig ar gyfer y disgyblion a chafwyd cyfle i eistedd nôl a gwrando ar ei pherfformiad gwefreiddiol. Roedd ei chaneuon yn cynnwys rhai gwreiddiol a chyfieithiadau Cymraeg o ganeuon Saesneg poblogaidd. Am gyfle arbennig! Yn ogystal â hyn bu nifer o'r disgyblion yn mwynhau dilyn clip fideo Oriel Odl er mwyn cynhyrchu darluniau lliwgar i ddathlu'r diwrnod.

**Dathliad Gŵyl Ddewi – Cystadleuaeth Cadair Ysgol Gyfun gŵyr**



Llongyfarchiadau gwresog i Gwenno Robinson ar ennill Cadair Ysgol Gyfun Gŵyr 2021! Hefyd yn gydradd ail Elena Ruddy a Ffion Morgan ac yn drydydd Ffion Howells a Gwenno Robinson! Diolch yn fawr i Megan Lewis am draddodi beirniadaeth hynod gynhwysfawr. Llongyfarchiadau i bawb gystadlodd - braf oedd clywed bod llenorion dawnus gyda ni. Daliwch ati i feithrin eich doniau ysgrifennu creadigol!!

Dyma ddarn o feirniadaeth Megan Lewis (enillydd Cadair a Choron Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc 2018), beirniad cadair Eisteddfod Ysgol Gyfun Gwyr 2021:

'Diolch yn fawr am y fraint o gael beirniadu cystadleuaeth y Gadair Eisteddfod Ysgol Gyfun Gŵyr 2021, a hynny eleni yn rhithiol - ie, dros Teams! Rwyf wedi mwynhau'r dasg hon yn eithriadol, a ga' i yn y lle cyntaf longyfarch pob un ohonoch am gystadlu. Rwy'n gwybod yn iawn pa mor anodd y mae'r flwyddyn a mwy diwethaf hon wedi bod i chi - colli ffrindiau, colli strwythur a sefydlogrwydd yr ysgol, a'r pwysau cynyddol yn y cartref wrth i ni gyd geisio barhau â'n gwaith a byw ein bywydau o ddydd i ddydd o dan yr un to. Camp a hanner felly yw dod o hyd i lygedyn o greadigrwydd mewn cyfnod mor llwm ac o dan amgylchiadau mor heriol, ac rwy'n tynnu fy het yn llwyr i chi am fod yna gampweithiau ffres, bywiog a mentrus wedi'u cyflwyno i'r gystadleuaeth hon eleni. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch.

| | |
|---|---|
| Yn gydradd drydydd, gosodaf: | Blonden Bincfelen - Gwenno Robinson Bl.13 |
| | Pili Pala – Ffion Howells Bl.12 |
| Yn gydradd ail, gosodaf: | Dan Glo – Elena Ruddy Bl.11 |
| | Margaret Mererid – Ffion Morgan Bl.13 |
| Ond yn fuddugol ac yn gwbl deilwng o Gadair 2021, mae: | Ceridwen – Gwenno Robinson Bl.13 |

'Llongyfarchiadau mawr a daliwch ati.'

# Y BYD CERDDOROL

**Llwyddiannau yn y maes cerddorol**



- David Ingham Bl.10 - wedi llwyddo i gyrraedd 10 terfynol Cystadleuaeth Ryngwladol Cyfansoddwyr Ifanc. Llwyddodd i gyfansoddi consierto.
- Lily Hall Bl.10 **-** Wedi llwyddo i gael lle yng ngherddorfa Coleg Cerdd a Drama Caerdydd.
- David Ingham Bl.10 **-** Wedi llwyddo i gael lle yng ngherddorfa Coleg Cerdd a Drama Caerdydd.
- Côr Ieuenctid Cymru 2020 - Mae Rhys James a Matthew Lewis, Blwyddyn 12, wedi ennill lle yng Nghôr Ieuenctid Cymru

- Llwyddodd yr Ysgol i gystadlu mewn sawl cystadleuaeth rithiol ar gyfer unigolion a chorau yn Eisteddfod rithiol yr Urdd ym Mai 2021
  Côr Merched Hŷn
  Côr Bechgyn Hŷn
  Deuawd Bechgyn - Dominic Harrison Bl.13 a Matthew Lewis Bl.12
  Unawd Bechgyn - Matthew Lewis Bl.12
  Unawd Chwythbrennau **-** Lili Hall Bl.10
- Llongyfarchiadau i Elena Ruddy Bl.11 (Telyn), Lily Hall Bl.10 (Ffliwt), a David Ingham Bl.10 (Telyn a Ffliwt) am lwyddo yn arholiadau Gradd 8 yn yr offerynnau a nodir.

### Eisteddfod T 2021

Llongyfarchiadau i'r canlynol am gystadlu yn Eisteddfod- yr Urdd eleni. Diolch iddynt am eu hymdrechion wrth gystadlu.

- Unawd Bl.7, 8 a 9 Ffion Condon
- Côr Bechgyn Bl.7 a dan 25 oed Bois Ifanc Gwyr
- Côr Merched Bl.7 a dan 25 oed Côr Merched Ysgol Gyfun Gŵyr
- Band neu Artist Unigol Bl.7 a dan 25 oed Band Y Gwylliaid Cochion
- Deuawd neu Ensemble Offerynnol Bl.7 a dan 25 oed Swigen Bl11 - Ysgol Gyfun Gwyr
- Unawd Offerynnol Bl.10 a dan 19 oed Elena Ruddy
- Unawd Offerynnol Bl.10 a dan 19 oed David Ingham
- Unawd Offerynnol Bl.10 a dan 19 oed Elin Rolles
- Cyflwyno Alaw Werin Bl.10 a dan 25 oed Elena Ruddy 16

### Cogurdd: Gornest y Gacen

Rhianwen Hopkin, Amy Thomas, Gwennan Howells, Amelia Mudd, Brion Thomas, Asia de Pompeis, William Russell, Ffion Condon, Gruff Evans, Jessica Wilton, Owain Ruddy

## LLWYDDIANT LLENYDDOL

### Gwobr Goffa Dafydd Rowlands



Un o uchafbwyntiau calendr Adran y Gymraeg yw mynychu noson Gwobr Goffa Dafydd Rowlands.
Cystadleuaeth lenyddol yw hon a sefydlwyd er cof am y llenor arbennig. Y mae'r gystadleuaeth yn
agored i ddisgyblion chweched dosbarth ysgolion Cwm Tawe ac fe ofynnir i ddisgyblion ysgrifennu
dau ddarn llenyddol ar unrhyw ffurf. Cynhaliwyd Seremoni Gwobr Goffa Dafydd Rowlands ar Zoom eleni a braf oedd deall mai Anest Williams, Blwyddyn 13, oedd yr enillydd. Derbyniodd ei gwaith, sef stori a cherdd, ganmoliaeth uchel gan y beirniad John Evans. Fe nododd mai cryfder ei chais oedd ei gallu i ddangos meistrolaeth lwyr o'r ddwy sgil, sef ysgrifennu rhyddiaith afaelgar, a chyfansoddi barddoniaeth
rymus a chofiadwy. Bydd Anest yn derbyn Tlws arbennig ynghyd a siec am £400.

## Gwobr Barddas dan 19 oed



### Tlws D Gwyn Evans Barddas

Llongyfarchiadau gwresog i Elena Ruddy, ar ennill Tlws D Gwyn Evans Barddas a gyflwynir fel arfer ar lwyfan y Babell Lên yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gwobrwyo rhithiol ar dir yr Ysgol gan Bennaeth Ysgol Gwyr bu hi eleni! Cyflwynir Tlws D. Gwyn Evans yn flynyddol i fardd rhwng 16 a 25 oed sy'n cyflwyno'r gerdd orau i'r gystadleuaeth. Tipyn o gamp i Elena ennill y gystadleuaeth o ystyried bod y gystadleuaeth yn agored i fyfyrwyr Prifysgol hyd at 25 mlwydd oed, ond cydnabyddiaeth haeddiannol (yn nhyb yr Ysgol) o dalentau llenyddol Elena. Thema ei cherdd oedd 'Twyll'.




TWYLL
Y tywydd a ddaw'n ddewin
A'i heulwen, cynnar, cyfrin
I efelychu Mehefin;
A phrifio a wna'r egin.

Haul y mis bach â'i wên braf
Yn denu o'r pridd flodau peraf
Y gwanwyn, am y cyntaf,
I gyhoeddi diwedd gaeaf.

O'r pridd, daw ei hwyneb eiddil,
Wyneb tlws, yn plygu gwegil
Lluniaidd, a lliwiau cynnil
Yn wrid ar ei gruddiau swil.

Ond yn rhy glou daw'r rhew glas
I wyso'i bochau irlas,
A'r tir yn ddiffaith o'i chwmpas;
Cyfrwys yw'r consuriwr cas.

### Cystadleuaeth Barddoniaeth Barddas i Ddisgyblion Bl 12 / 13 - 2021



Llongyfarchiadau gwresog i Elena Ruddy ar ennill Cystadleuaeth Farddoniaeth Barddas Blwyddyn 12 a 13 Yr her oedd cyfansoddi cerdd ar y thema 'Ha Bach Mihangel' a'r wobr yn £50 a thocyn i Ŵyl Gerallt. Daeth Elena i'r brig unwaith eto mewn cystadleuaeth boblogaidd o safon uchel.

### Eisteddfod Cymdeithas Dafydd Ap Gwilym

Llongyfarchiadau i Gwenno Robinson am ennill Cadair Eisteddfod Cymdeithas Dafydd ap Gwilym Prifysgol Rhydychen eleni. Cipiodd y drydedd wobr yn ogystal. Y darn buddugol oedd stori fer wedi'i hysgrifennu ar ddechrau'r pandemig yn ceisio rhagweld sut fyddai 'haint' byd eang yn cael effaith ar gymdeithas. Llongyfarchiadau mawr i Ffion Morgan ar ennill yr ail wobr, eto am ysgrifennu stori fer, yn seiliedig ar hanes ffoadur yn ffoi o'r Dwyrain Pell. A llongyfarchiadau i Anest Williams ar gipio'r ail wobr yng Nghystadleuaeth y Goron am gyfansoddi darn o farddoniaeth

## Creu Ffilm Fer



Daeth llwyddiant i ddau ddisgybl yng nghystadleuaeth creu ffilm fer Menter Iaith Abertawe ym mis Mehefin. Ymatebodd y ddau ddisgybl i'r thema 'Rhyddid' gan gynhyrchu gwaith clyfar a safonol ar gyfer y gystadleuaeth. Daeth Elena Ruddy i'r brig yn y categori 14-16 oed a Gwenno Robinson i'r brig yng nghategori 16-18 oed. Mae'r ffilmiau i'w gweld ar YouTube ac mae ôl gwaith ac amser anhygoel i'w gweld ynddynt. Mae modd gwylio'r gwaith ar sianel Menter Iaith Abertawe.

## Ffotograffiaeth



Llongyfarchiadau mawr i Katie Porter Bl 11 ar ennill y 3ydd wobr yng nghystadlaethau Eisteddfod T. Llwyddodd Katie i greu cyfres o luniau ffotograffig yn y gystadleuaeth i bobl ifanc rhwng 14 – 25oed. Tipyn o gamp o gofio'r nifer enfawr a gystadlodd ar y gystadleuaeth hon.

## Hanes/Auschwitz




Bu tri disgybl yn rhan o'r cynllun rhithiol 'Lessons from Auschwitz' eto eleni. Cafodd y disgyblion Gwenno Robinson, Anest Williams a Megan Cameron y cyfle i wrando ar dystiolaeth gan oroeswraig o'r Holocost, cyfle i ddysgu am fywyd Iddewig yr Almaen cyn dyfodiad y rhyfel a chyfle i greu fideo byr yn cofio am brofiadau'r dioddefwyr.



Gwnaeth aelodau o ddosbarth Hanes Blwyddyn 13 recordio fideo ar y thema o obaith ar gyfer Diwrnod Coffau'r Holocost yn Sir Abertawe yn Ionawr 2021. Crëwyd fideo o'r merched yn adrodd cerdd T Gwynn Jones, 'Gwenoliaid', a chwaraewyd y fideo fel rhan o raglen rithiol y sir yn neuadd y Brangwyn. Darlledwyd eu fideo yn adrodd gobaith a dygnwch yr Iddewon yn sgil erchylltra'r Holocost ar gyfryngau cymdeithasol y Sir i goffau a chofio'r diwrnod pwysig hwn.

# DAWN AR DAFOD

## Tîmoedd Siarad Cyhoeddus Gŵyr yn cyrraedd y brig!

### Tîm Siarad Cyhoeddus y Roteri



Llongyfarchiadau enfawr i dîm Siarad Cyhoeddus Ysgol Gyfun Gŵyr ar ennill Cystadleuaeth y Rotary eleni sef Ffion Morgan, Anest Williams a Gwenno Robinson. Rydym mor falch o'ch llwyddiant fel tîm yn y gystadleuaeth hynod gystadleuol a safonol hon. Llongyfarchiadau i gydag Anest Williams am ennill y wobr i'r Cynigydd Gorau ac i Gwenno Robinson am ennill gwobr Gwrthwynebydd Gorau'r gystadleuaeth. Yr hufen ar y gacen oedd cyhoeddi mai Siaradwr Gorau'r gystadleuaeth ymysg holl ysgolion De Cymru oedd Gwenno - tipyn o gamp!!! Testun areithio'r tîm eleni oedd Cred y tŷ hwn nad yw Cymru ar werth!

### Siarad Cyhoeddus - Her Sefydliad Morgan

Llwyddodd Gwenno Robinson a Cadi Trick, Blwyddyn 13, gyrraedd rhestr fer cystadleuaeth 'Her Sefydliad Morgan', sef cystadleuaeth siarad cyhoeddus ym maes Daearyddiaeth yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Bu'r merched yn cystadlu yn erbyn dwy ysgol arall ar Fehefin y 4ydd.
Roedd y merched wedi cyrraedd y rownd derfynol ar ôl anfon clip ohonynt yn dadlau o blaid ac yn erbyn y gosodiad 'Ai nawr yw'r amser i ddatgan argyfwng yr hinsawdd?'
Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt am eu gorchest, a da iawn yn benodol i Gwenno am ennill 'Y Siaradwr o Blaid' gorau, a 'Siaradwr Gorau' yn y gystadleuaeth.

## MAES PEIRIANNEG, TECHNOLEG A CHYFRIFIADUREG

### Tim Peirianneg



**2020-21** Oherwydd y niferoedd uwch nag arfer sy'n astudio Ffiseg i Lefel AS eleni, cafwyd mwy nag arfer o geisiadau ar gyfer y prosiect, gyda'r prosiectau hynny am y tro yn cael eu cynnal yn rhithiol. Oherwydd safon uchel iawn yr ymgeiswyr, penderfynwyd derbyn mwy nag arfer, gyda dau dîm yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Timoedd Bl.12 oedd -

**Tîm 1** Jayden Mahoney (Capten), Gruff Robinson, Tomos Besley, Dylan Allen, Matthew Lewis

**Tîm 2** Grace Gormley (Capten), Millie Phillips, Lily Williams, Kian Richards, Christian Morton, Dylan Brannigan

Cynhyrchwyd dau brosiect o safon, gyda dau gyflwyniad wedi eu recordio i gyd-fynd. Cafodd y grwpiau eu holi ar eu gwaith mewn sesiwn Cwestiwn & Ateb ar ddiwedd Mehefin, gyda'r beirniaid yn rhoi clod uchel i un o'r timoedd yn arbennig.  Felly, llongyfarchiadau gwresog i i Dîm 1 Peirianneg yr Ysgol ar ennill y wobr 'Defnydd Gorau o Egwyddorion Peirianneg Fecanyddol' yng nghystadleuaeth yr EESW. Roedd hi'n gystadleuaeth ffyrnig yn erbyn 34 o dimau eraill ar draws Cymru. Cawson nhw eu henwebu ar gyfer ail wobr hefyd, sef y 'Cymhwysiad Gorau o Wyddoniaeth'.

## CEFNOGI CYD-DDYN



## Elusennol

### Darparu Lluniaeth i'r Digartref

Ar ddechrau mis Rhagfyr, mi wnaeth Mr Lloyd Henry a disgyblion cwrs Arlwyo Blwyddyn 10 goginio cawl i fwydo'r rheiny sydd mewn angen yn Abertawe, megis y digartref. Llwyddodd Mr Henry a'r disgyblion baratoi galwyni o gawl blasus a maethlon i'w ddosbarthu i'r anghenus trwy gyfrwng Zak's Place yn y ddinas. Fe wnaeth Eglwys Seion Waunarlwydd, gyda chymorth y Parch. Derek Rees, brynu'r llysiau angenrheidiol a'u trosglwyddo i'r ysgol.

### Banc Bwyd y Santes Catrin

Mae'r Flwyddyn 10 bresennol wedi casglu nwyddau ar gyfer y banc bwyd yng Ngorseinon ers 3 mlynedd bellach - ffordd o gefnogi elusen a theuluoedd lleol heb ofyn am arian. Eleni, yn ystod y pythefnos cyn hanner tymor Hydref, gofynnwyd i bob disgybl gyfrannu o leiaf un eitem (er i nifer o ddisgyblion gyfrannu tipyn yn fwy). Cyfrannodd disgyblion eitemau addas ar gyfer y banc bwyd - bwydydd sych, tuniau, ac eitemau ymolchi. Oherwydd sefyllfa Covid-19 bu'n rhaid i ni ynysu'r eitemau cyn i ni eu trosglwyddo.  Ar

ddiwedd Tachwedd cyflwynwyd 17 bocs a 43 cwdyn plastig yn llawn bwyd i'r Banc Bwyd yn Eglwys Santes Catrin yng Ngorseinon, ar ôl i ddisgyblion Blwyddyn 7 lwytho'r bwyd i'r bws mini. Roedd y Banc Bwyd, sydd yn gweithredu o dan yr ymbarél Trusell Trust, yn gwerthfawrogi yn fawr iawn cyfraniad mor hael, a hynny yn ystod cyfnod sy'n anodd ac ansicr i nifer. Gwerthfawrogwyd ymdrechion disgyblion Blynyddoedd 7, 9 a 10 yn fawr – bydd y bwyd yn gwneud gwahaniaeth i fywyd cynifer yn ein cymuned.

### Codi £300 i Macmillan

Diolch i Mr Henry o'r adran Arlwyo am ei waith caled eleni eto wrth gynnal Bore Coffi Macmillan ddiwedd mis Medi. Fel arfer byddai'r staff i gyd yn cyfrannu cacennau a melysion at y wledd ond, oherwydd cyfyngiadau eleni, nid oedd y drefn arferol yn bosib. Daeth Mr Henry felly i achub y dydd gan greu pecynnau bwyd hynod flasus i'r staff, gyda'r staff wedyn yn cyfrannu arian at yr achos da. Codwyd swm teilwng iawn o dros £300 gan staff yr ysgol.

### Taith Gerdded MacMillan – HER HEICIO PENRHYN GŴYR



Ar Ddydd Sadwrn 10 Gorffennaf, bu tîm o dros 40 o athrawon Ysgol Gyfun Gŵyr yn cerdded 25 o filltiroedd ar hyd llwybrau Penrhyn Gŵyr, er mwyn cefnogi Cymorth Canser MacMillan, achos sy'n agos iawn at galon yr Ysgol. Caed llwyddiant yn cerdded yn 2019, ac roedd effaith sylweddol COVID-19 ar ein helusennau lleol wedi bod yn ysgogiad ychwanegol i'r penderfyniad i fwrw ati eleni. Gosodwyd targed o £3000 ar gyfer y daith, a chwalwyd hynny gyda ffigwr o £8000 hyd yn hyn. Gobeithir trosglwyddo'r swm o arian anrhydeddus iawn i elusen MacMillan yn ystod yr Haf.



### Grwpiau Hawliau Plant

Yn sgîl cyfyngiadau Covid-19, ni fu'n bosib i'r gweithgorau hawliau niferus i gwrdd wyneb i wyneb eleni. Fodd bynnag, llwyddwyd i gynnal cyfarfodydd rhithiol gan ddefnyddio Microsoft Teams a rhoddodd hyn gyfle da i'r disgyblion i ddod ynghyd a thrafod materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau. Yn ystod y tymor, dathlwyd mis hawliau pobl dduon drwy ddosbarthu posteri ar hyd safle'r ysgol o bobl dduon pwysig sydd wedi cael dylanwad ar ein byd. Y nod oedd tynnu sylw disgyblion at gyfraniad sylweddol pobl dduon i'n byd a llwyddwyd i wneud hynny'n effeithiol.

Yn ogystal â hyn, lansiwyd blog o'r enw Erthygl 55 lle cafodd nifer o'n disgyblion gyfle i ysgrifennu erthyglau am faterion sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc. Ymysg yr erthyglau a gyfrannwyd, trafodwyd ymgyrch "Black Lives Matter", pwysigrwydd gwyliau "Pride" ynghyd â "White Saviour Complex", sef y cysyniad o bobl wynion yn mynd i wledydd tlawd y byd er mwyn "achub" y trigolion lleol. Yn sicr, roedd yr erthyglau yn aeddfed a deallus ac yn deyrnged briodol i holl waith y gweithgorau.

Bu dwy o'n disgyblion – Anwen Rodaway a Ffion-Haf Davies – yn hynod o weithgar hefyd gyda'r Senedd Ieuenctid. Etholwyd y ddwy i gynrychioli elusen Learning Dsiability Wales ac etholaeth Gwyr yn yr etholiad Senedd Ieuenctid diwethaf. Ers hynny maent wedi bod yn rhan o Bwyllgor Sbwriel a Gwastraff y Senedd a chyhoeddwyd eu hadroddiad a'u hargymhellion ym mis Tachwedd. Diolch diffuant i'r ddwy ohonynt am eu gwaith penigamp.

### Cylchgrawn Plant Cymru

Llongyfarchiadau mawr i Ffion Haf Davies Bl.13, ac Elena Ruddy Bl.10, a lwyddodd i gael erthyglau ar sgîl effeithiau Covid-19 wedi eu cyhoeddi yn Rhifyn Tymor yr Hydref o'r cylchgrawn nodedig Plant Cymru. Anaml iawn y bydd erthyglau gan blant yn cael eu cyhoeddi ac felly roedd yn dipyn o anrhydedd i gael cynnig i wneud hyn. Ysgrifennodd y ddwy am eu profiadau a'u pryderon ynglŷn â'u hawl i gael addysg yng nghyd-destun y cyfnodau clo sydd wedi ein taro eleni.

### Ymgyrch 5M Cymru – Pleidlais am y tro cyntaf i Ieuenctid Cymru

Mae'r Ysgol yn falch iawn bod dau o fyfyrwyr y Chweched - Gwenno Robinson (Blwyddyn 13) a Simone Bastin (Blwyddyn 12) - yn flaenllaw yn yr ymgyrch genedlaethol gan 5M i godi ymwybyddiaeth ieuenctid o etholiad '21 ar gyfer Senedd Cymru, a cheisio sicrhau bod cynifer a phosib o'r sawl sydd dros 16 ar draws Cymru YN pleidleisio eleni. Dyma bwt ganddynt am eu gwaith gyda 5M.

## LLWYDDIANNAU A PHROFIADAU ACADEMAIDD

### Seremoni Ffarwelio Bl.13

Cafwyd Seremoni Ffarwelio hyfryd yn Lolfa'r Chweched yr ysgol ar bnawn Gwener 28 Mai i ddymuno'n dda i Flwyddyn 13 wrth iddynt gwpla eu cyfnod o saith mlynedd yn Ysgol Gyfun Gwyr. Cyflwynwyd gwobrau amrywiol a chafwyd anerchiad pwrpasol gan y Parchg Dr Adrian Morgan, Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, wedi i Bennaeth yr Ysgol hel atgofion am briodoleddau a rhagoriaethau'r garfan hynod hon o ddisgyblion. Wedi i bawb fwynhau'r seremoni ffurfiol, aed ymlaen i wledda ar gyri Indiad, a chacen gaws hynod, wedi eu paratoi gan Mr Lloyd Henry a Ms Sarah Green, ac wedi eu gweni gan staff eraill yr Ysgol. Llwyddwyd i gynnal y seremoni a bwyta'r bwyd wrth lynu at reolau cadw pellter cymdeithasol a gwisgo mygydau, a gwnaed defnydd o'r ardaloedd allanol ger y Lolfa er mwyn lliniaru ar led posib Covid-19. Diolch o galon i'r prif ddisgyblion a Phennaeth ac Is-bennaeth y Chweched am yr holl waith o drefnu'r gweithgaredd o dan amodau mor heriol.

### Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe ar-lein

Ddiwedd mis Hydref, cafodd y myfyrwyr gyfle arbennig i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o brif egwyddorion yr Ymagwedd Seicodeinamig drwy fynychu un o ddarlithoedd arbennig yr Ŵyl rithiol hon eleni. Testun y ddarlith oedd 'Breuddwydion yr Arwr Ffeministaidd Freudaidd 'Dora. Darlith hynod ddifyr a weithiodd i ennyn chwilfrydedd nifer o fyfyrwyr ac i gryfhau eu dealltwriaeth o gysyniadau'r fanyleb lefel A gan gynnwys yr isymwybod, rolau'r id, ego a'r uwch-ego a mecanweithiau amddiffyn.

### Ymweliadau cyn-ddisgyblion â'r Adran Gymraeg ac Ieithoedd Modern

Ganol fis Ionawr croesawyd cyn-ddisgybl Rhys Williams i rannu ei brofiadau â disgyblion Bl.11. Mae Rhys erbyn hyn yn ohebydd i newyddion y BBC ac yn teimlo'n hynod ffodus ei fod wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Soniodd am yr holl ddrysau sydd wedi agor iddo fel siaradwr Cymraeg. Roedd y drafodaeth hon mor bwysig i flwyddyn 11 wrth iddynt baratoi at ddewis eu cam nesaf ym myd addysg ac ym myd gwaith.

Yn ogystal, fe groesawodd yr adran Ieithoedd Modern Megan Davies yn ôl i'r ysgol. Mae Megan bellach yn gweithio fel newyddiadurwraig hefyd a rhannodd ei stori ar sut mae'r Ffrangeg wedi'i chynorthwyo ar ei thaith ym myd gwaith.

### Rhwydwaith Seren

Anogwyd myfyrwyr Blwyddyn 12 i gyfranogi o Rwydwaith Seren eto eleni.

Lluniwyd Rhwydwaith Seren gan Lywodraeth Cymru i gefnogi disgyblion mwyaf disglair Cymru i gyflawni eu potensial academaidd, drwy annog gweithgareddau mewn dosbarthiadau meistr, darlithoedd a chyfleoedd uwch gwricwlaidd. Mae nifer o'n myfyrwyr ni wedi elwa o'r rhaglen hon dros y blynyddoedd, gan ennill llefydd ar gyrsiau / mewn prifysgolion cystadleuol tu hwnt gan gynnwys Rhydgrawnt.

### Dysgu Lladin

Llwyddwyd i ennill grant o'r Classics for All gan dderbyn £1000 tuag at y gost o lyfrau a staffio'r gwersi Lladin i ddisgyblion iau'r ysgol yn ystod 2019-20..

Mae'r bartneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe/CWCH yn parhau er mwyn cynnal gwersi Lladin CA3:

Bl 7: Hanner Tymor o sesiynau diwylliant Rhufain/Lladin ar gael wrth roi cyfle i fyfyrwyr y Brifysgol gwblhau modwl 'Dysgu' o radd Astudiaethau Clasurol. Y nod yw magu diddordeb yn y disgyblion ar gyfer gwersi sydd ar gael i Bl 8 a Bl 9 ar ôl ysgol.

Bl.8 : 11 Disgybl Bl.8 wedi pasio tystysgrif Lefel 1 gyda chanlyniadau ardderchog ym Mehefin 2020.

Bl.9 : 3 disgybl wedi cael canlyniadau ardderchog yn Lefel 2 iaith Lladin – hyn yn cyfateb i TGAU llawn!

Cafwyd gafael ar athrawes newydd o'r Brifysgol, sef myfyrwraig PhD Lladin, sydd wedi cwblhau cwrs TAR. Mae darpariaeth 2020-11 wedi dechrau ym mis Medi.

Niferoedd eleni - 9 disgybl TGAU Lladin [Bl.9], ac 17 disgybl Lefel 1 [Bl.8], sydd eto yn niferoedd iachus; mae'n amlwg bod y ddarpariaeth yn cwrdd ag anghenion nifer o ddisgyblion sydd wir yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymestyn gorwelion ieithyddol.

### Ysgol Haf Caergrawnt

Llongyfarchiadau i Ethan Carmichael Bl.12 ar ennill lle yn ysgol haf Caergrawnt lle y gobeithia fynd ymlaen i astudio Ffrangeg ac Arabeg.

### Gwyddonydd y Flwyddyn - Gwobr Dr John Davies 2021

Gwobrwywyd Millie Phillips a Christian Morton, ill dau, fel gwyddonwyr y flwyddyn yn Ysgol Gyfun Gwyr. Mae gwobr Dr John Davies yn cael ei chyflwyno pob blwyddyn i'r disgybl(ion) gafodd y marc gorau yng nghymhwyster TGAU Wyddoniaeth Ddwyradd. Seiliwyd gwobr eleni ar ganlyniadau TGAU Blwyddyn 10 yn 2019, a daeth Millie a Christian i'r brig, gan ennill yr un cyfanswm o farciau.
Roedd Dr John Davies yn ŵr bonheddig, un o gewri gwyddoniaeth Cymru, yn enwedig yn ardal Abertawe. Ymhlith nifer o uchafbwyntiau gyrfa Dr Davies oedd astudio yn FIT a hefyd derbyn Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 am ei

wasanaeth i Wyddoniaeth a Thechnoleg yn y Gymraeg. Bu farw Dr Davies yn sydyn yn 2016 ac mae'n braf bod enw Dr Davies yn parhau i gael ei gysylltu gyda maes gwyddoniaeth yn Ysgol Gyfun Gŵyr.

### Cystadleuaeth Fathemateg yr Urdd



Fe wnaeth tua 70 (allan o 670 yn genedlaethol) o ddisgyblion Blwyddyn 8 Ysgol Gyfun Gŵyr gystadlu mewn cystadleuaeth fathemategol gyda'r Urdd ym mis Ebrill. Derbyniodd pob disgybl dystysgrif yn enw'r Urdd. Roedd 17 o'r 670 wedi disgleirio. Ein llongyfarchiadau i bawb a fentrodd ac yn arbennig i Amy Thomas (Blwyddyn 8) sydd ymysg yr 17 a ddaeth i'r brig. Derbyniodd wobr i gydnabod ei champ. Dan amgylchiadau tebyg y llynedd, ac mewn cydweithrediad â'r Urdd, rhoddwyd sylw i'r enillwyr ac i'r gystadleuaeth mewn negeseuon Twitter. Gwnaed hynny eleni yn ystod wythnos Eisteddfod T yr Urdd.

### Cystadleuaeth UKMT

Mae UKMT yn fudiad sydd â'r amcan o hybu addysg pobl ifanc mewn mathemateg ar draws y DU. Maen nhw'n gwneud hyn drwy drefnu gweithgareddau cyfoethogi sgiliau mathemateg a chystadlaethau cenedlaethol ar gyfer amryw o oedrannau. Mae dros 700,000 o ddisgyblion ar draws y DU yn cystadlu yn flynyddol, gydag 11 o'r rheini yn dod o Ysgol Gyfun Gwyr eleni!

Llwyddodd y disgyblion canlynol i ennill gwobrau arian ac efydd yn y gystadleuaeth ar gyfer disgyblion chweched dosbarth, sy'n eu rhoi ymhlith y 30% gorau, a'r 60% gorau o ymgeiswyr ar draws y wlad, yn ôl eu trefn.

Gwobr Arian
Lili Harries, Dylan Allen

Gwobr Efydd
Millie Phillips, Jayden Mahoney, Gruff Robinson, Matthew Lewis, Matthew Brown, Reese Burrow
Rhaid canmol y disgyblion, sydd yn bennaf ym Mlwyddyn 12, am eu hymdrechion, a gobeithiwn am wobr aur blwyddyn nesaf pan fydd sawl un ohonynt yn rhoi cynnig arall ar y gystadleuaeth.

### Cystadleuaeth RA Butler

Daeth cydnabyddiaeth i Gwenno Robinson o flwyddyn 13 am ei thraethawd yng nghystadleuaeth ryngwladol R. A. Butler Prifysgol Caergrawnt. Cyrhaeddodd ei thraethawd "Why should anybody bother to vote" yr wyth uchaf. Cafodd ganmoliaeth uchel am ei thrafodaeth ar y pwnc

### Yale Young Global Scholars

Rydym yn falch iawn o ddeall bod Dylan Allen Bl.12 wedi cael ei dderbyn gan Brifysgol Yale yn yr Unol Daleithiau ar gyfer eu Hysgol Haf o dan faner y Yale Young Global Scholars

**Cystadleuaeth Caergrawnt**

Llwyddodd David Ingham Bl.10 i ennill cystadleuaeth Caergrawnt - the Cambridge Language Collective Writing Competition - Junior Individual Category. Ysgrifennodd draethawd yn Ffrangeg dros y gwyliau Pasg, a'i ddanfon bant i Gaergrawnt.

**Cystadleuaeth Cyfansoddi Ryngwladol**

Bu David Ingham Blwyddyn 10 yn cystadlu yng nghystadleuaeth COMMONWEALTH INTERNATIONAL COMPOSITION AWARD a gwelwyd cystadleuwyr o bedwar ban byd. Bu wrthi'n ddyfal yn cyfansoddi darn ar ôl darn o gerddoriaeth, ac er mwyn cyrraedd y brig bu'n rhaid cyfansoddi cerddoriaeth a oedd yn seiliedig ar ddarn o farddoniaeth. Darlledwyd y rownd derfynol ar You Tube. Bu'r cystadlu'n frwd. Cyhoeddwyd yr enillydd gan y berfformwraig Evelyn Glennie, a'r talentog David Ingham a fu'n fuddugol. Llongyfarchiadau enfawr iddo.

**Cystadleuaeth Menter y Dreftadaeth Gymreig**



Enillodd Anest Williams Bl.13 y wobr gydradd gyntaf am ei Phrosiect Unigol (a gyflawnodd fel rhan o waith cymhwyster y Fagloriaeth eleni) yng Nghystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**.** Teitl ei gwaith ymchwil oedd: Sut mae digwyddiadau gwleidyddol diweddar wedi effeithio ar y gefnogaeth tuag at ymgyrch YesCymru? Mi roedd yn archwiliad arloesol, ac eithriadol, ac yn sicr gwerth ei ddarllen ac roedd yn cwrdd â meini prawf y Wobr EUSTORY**,** cystadleuaeth Cymru gyfan. Derbyniodd Anest ei gwobr mewn seremoni ddiwedd Mehefin.

**Ysgoloriaeth**

Llongyfarchiadau i Faith Jones Bl.13 ar ennill ysgoloriaeth Margaret Evelyn Lynne Williams ar gyfer astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bu'n rhaid iddi ysgrifennu traethawd ar ddyfodol yr Iaith a chynlluniau'r Llywodraeth i gyrraedd y filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
Mae Faith yn un o 2 ddisgybl i ennill y bwrsari o £500.
Tipyn o gamp i fyfyrwraig ddiymhongar - gwobr gwbl haeddiannol i un sydd wedi wynebu cymaint o anawsterau yn ddewr a di-ffws. Aseswyd y cais gan Dr Rhianedd Jewell a Dr Robin Chapman ymhlith eraill, a gwnaeth brwdfrydedd Faith dros y pwnc a'r modd y gallai'r fwrsariaeth hon ei hysbrydoli i greu argraff arbennig iawn ar y panel.\

**Adran Seicoleg - ASA Gyfeillgar**

Mewn ymdrech i gefnogi bwriad yr ysgol i ddod yn sefydliad Awtistiaeth gyfeillgar eleni, cynhaliwyd cyfres o wersi ym mis Medi i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y myfyrwyr Seicoleg ym mlwyddyn 12 a 13 o'r cyflwr. Ffocws y gwersi oedd dangos rhai o'r sialensiau a wynebir gan bobl ifanc ag ASA yn ystod diwrnod arferol yn yr ysgol. Cynhaliwyd wedyn sesiwn hyfforddi gan ASD Info Wales i symbylu trafodaeth a chynyddu dealltwriaeth ac empathi. Cafodd pob myfyriwr asesiad a derbyn yn ganlyniad i'w llwyddiant, dystysgrif 'Ymwybodol o Awtistiaeth'. Roedd nifer o'r myfyrwyr yma eisoes yn gweithio fel Llysgenhadon Lles a Buddies y Chweched dosbarth, ac mi fyddan nhw, yn ganlyniad i'r hyfforddiant hwn yn fwy cymwys i adnabod anghenion disgyblion iau'r ysgol ac i ymateb mewn ffordd sensitif a phriodol.

**Cynhadledd Rithiol Seicoleg**

Buodd myfyrwyr Seicoleg Bl.12 wrth eu boddau yn mynychu'r Gynhadledd Seicoleg rithiol a gydlynwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mis Ebrill eleni. Roedd hyn yn gyfle euraidd i ymestyn eu gwybodaeth am faterion seicolegol heriol, wrth fynychu darlithoedd ar y testunau canlynol: Sylfeini Seicolegol Darllen gan Dr Manon Jones o Brifysgol Bangor; Ffactorau sy'n effeithio ar gaffael cyflawn o systemau gramadegol y Gymraeg, gan Dr Hanna Binks Prifysgol Aberystwyth; Dwyieithrwydd ac Anableddau Datblygiadol, Dr Rebecca Ward, Prifysgol Bangor' Defnyddio Technoleg i gefnogi iechyd a lles cleifion gwledig, Dr Rachel Rahman Prifysgol Aberystwyth.
Roedd yna gyfle hefyd ar ddiwedd y gynhadledd i glywed am lwybrau gyrfa ac i holi cwestiynau. Yn sicr, mi wnaeth y gynhadledd ysbrydoli nifer i ystyried gwneud cais i astudio Seicoleg yn y brifysgol.





Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

# Ysgol Gyfun Gŵyr

Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB
Ffôn: (01792) 872403
Ffacs: (01792) 874197
Gwefan: www.yggwyr.org.uk
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk

Pennaeth Gweithredol: Mr Jeffrey Connick
Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Miss Aldyth Williams
Clerc: Mr Ben Roberts

https://www.yggwyr.org.uk